Hawdd ei Ddeall

## Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru

# Adroddiad Therapi Iaith a Lleferydd



Cafodd y ddogfen hon ei hysgrifennu gan **Gyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru.** Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o **'Adroddiad Therapi Iaith a Lleferydd Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru'.**

**Mai 2022**

CYNGOR IECHYD CYMUNED
COMMUNITY HEALTH COUNCIL

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon

Dogfen hawdd ei deall yw hon. Ond efallai y bydd arnoch chi angen help o hyd i'w darllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.



Efallai y bydd geiriau mewn **ysgrifennu glas trwm** yn anodd i'w deall. Gallwch edrych beth mae'r holl eiriau mewn glas yn meddwl ar **dudalen 19**.

Pan fydd y ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru.** I gael mwy o wybodaeth cysylltwch â:

**Gwefan:** https://gogleddcymrucic.gig.cymru/

**E-bost:** Admin2@wales.nhs.uk

**Ffôn:** 01248 679 284 or 01978 356 178

Cafodd y ddogfen hon ei gwneud yn hawdd ei deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall hwn, cliciwch yma.

# Gwybodaeth hawdd ei deall


Mae **gwybodaeth hawdd ei deall** yn wybodaeth y gallwch chi ei deall a'i defnyddio. Er enghraifft, mae dogfennau Hawdd ei Ddeall yn **wybodaeth hawdd ei deall.**



Mae arnon i eisiau i chi fedru deall a defnyddio ein holl wybodaeth.



Os hoffech chi gael y ddogfen hon mewn ffordd wahanol, cysylltwch a ni.



Er enghraifft, os oes arnoch chi ei hangen mewn braille.




Gallwch chi hefyd gael y ddogfen hon mewn Saesneg ar ein gwefan.

# Cynnwys

**Tudalen**


Gwybodaeth hawdd ei deall .... 3

Cyflwyniad .... 5

Y pethau wnaethon ni .... 8

Fe siaradon ni â .... 9

Y pethau y daethon ni i wybod .... 11

- Gwasanaethau strôc .... 11
- Gwasanaethau Canser y Gwddf .... 12
- Gwasanaethau Plant .... 14
- Gwasanaethau Anabledd Dysgu .... 16
- Beth sy'n digwydd yn awr? .... 18

Geiriau Anodd .... 19

# Cyflwyniad

Ni yw **Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru**.




Mae **Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru** yn gwneud yn siŵr bod y **GIG** yng Ngogledd Cymru yn gwneud gwaith da.



Rydyn ni'n gwneud yn siŵr bod pobl yn cael dweud eu barn yn eu gwasanaethau lleol.



Rydyn ni'n siarad â phobl tra byddan nhw'n cael gofal gan y **GIG**. Rydyn ni hefyd yn siarad â phobl mewn digwyddiadau cymunedol.




Mae'r ddogfen hon ynglŷn â'r pethau ddywedodd pobl wrthyn ni am wasanaethau **Therapi Iaith a Lleferydd** yng Ngogledd Cymru.

Mae **Therapi Iaith a Lleferydd** yn wasanaeth iechyd sy'n rhoi cefnogaeth â phroblemau'n ymwneud â chyfathrebu neu fwyta ac yfed.




Mae gwasanaethau **Therapi Iaith a Lleferydd** yn cael eu darparu gan weithwyr iechyd proffesiynol sy'n cael eu galw'n Therapyddion Iaith a Lleferydd.


**Mae gwahanol wasanaethau Therapi Iaith a Lleferydd ar gyfer:**



- Pobl sydd wedi cael **strôc**



Mae **strôc** yn salwch sy'n digwydd pan fydd gwaed yn stopio llifo i ran o'ch ymennydd.
Gall **strôc** achosi problemau â symud a lleferydd.




- Pobl sydd â chanser y gwddf



- Plant a phobl ifainc



- Pobl ag anableddau dysgu.



Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn darparu gwasanaethau **Therapi Iaith a Lleferydd** ar gyfer pobl sy'n byw yng Ngogledd Cymru.



Roedd rhai pobl yn dweud wrthyn ni eu bod yn bryderus ynghylch gwasanaethau **Therapi Iaith a Lleferydd** yng Ngogledd Cymru.

# Y pethau wnaethon ni



Fe ofynnon ni i bobl yng Ngogledd Cymru ddweud wrthyn ni am eu profiadau o wasanaethau **Therapi Iaith a Lleferydd**:



- Wyneb yn wyneb fel grwpiau mewn digwyddiadau



- Mewn digwyddiadau rhithwir



- Trwy ein he-bostio ni



- Mewn cyfarfodydd 1:1.

# Fe siaradon ni â



- Phobl sydd wedi cael **Therapi Iaith a Lleferydd**



- Rhieni a gofalwyr



- Athrawon a gweithwyr proffesiynol ym maes addysg



- Therapyddion Iaith a Lleferydd **Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr**



- Rheolwyr **Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr**.

**Fe ofynnon ni wrthyn nhw ddweud wrthyn ni:**



- Beth aeth yn dda gyda gwasanaethau **Therapi Iaith a Lleferydd**.



- Beth oedd ddim wedi mynd yn dda gyda gwasanaethau **Therapi Iaith a Lleferydd**.




Dywedodd pobl wrthyn ni hefyd sut yr oedd COVID-19 wedi effeithio ar wasanaethau **Therapi Iaith a Lleferydd**.

# Y pethau y daethon ni i wybod

## Gwasanaethau strôc

Dywedodd un person a gafodd **strôc** wrthyn ni eu bod yn meddwl:



- bod **Therapi Iaith a Lleferydd** yn Ysbyty Dolgellau yn gweithio'n dda iawn



- bod defnyddio galwadau fideo ar gyfer sesiynau therapi iaith a lleferydd yn gweithio'n dda




- bod galwadau fideo yn gweithio'n well yn ystod y pandemig oherwydd nad ydych chi'n gorfod gwisgo mygydau



- bod sesiynau **Therapi Iaith a Lleferydd** yn **canolbwyntio ar yr unigolyn**. Mae **canolbwyntio ar yr unigolyn** yn meddwl rhoi'r unigolyn yng nghanol y cynllunio ar gyfer ei fywyd.

## Gwasanaethau Canser y Gwddf




Weithiau mae ar bobl sydd â Chanser y Gwddf angen llawdriniaeth.



Mae'r llawdriniaeth yn newid y ffordd maen nhw'n siarad ac yn anadlu.


**Efallai y bydd arnyn nhw angen cefnogaeth i:**



- fwyta ac yfed yn ddiogel



- defnyddio darn arbennig o offer i siarad yn glir.  Mae hyn yn cael ei alw'n Electrolaryncs (**EL**).




Dywedodd un person sydd wedi cael canser y gwddf wrthyn ni:



- bod **Therapi Iaith a Lleferydd** wedi ei gefnogi'n dda cyn ac ar ôl ei lawdriniaeth



- y buasai wedi hoffi cael mwy o amser 1:1 a'i Therapydd Iaith a Lleferydd



- y buasai wedi hoffi cael rhoi cynnig ar wahanol therapïau i'w helpu â'i **EL**



- ei fod yn meddwl mai dysgu gan bobl eraill sy'n defnyddio **EL** yw'r gorau



- bod bod yn rhan o grŵp cefnogi wir yn helpu ei leferydd. Gallwch weld mwy am y grŵp cefnogi hwn yn: [https://glanclwydlary.weebly.com](https://glanclwydlary.weebly.com)

## Gwasanaethau Plant



Roedd ar lawer o rieni eisiau dweud wrthyn ni am eu profiadau o wasanaethau **Therapi Iaith a Lleferydd** Plant.

Dywedson nhw wrthyn ni:



- Yn ystod y cyfnod clo, cafodd cyfathrebu plant ei effeithio arno oherwydd:



- nad oedd gan lawer o blant fynediad at sesiynau **Therapi Iaith a Lleferydd**



- nid oedd sesiynau fideo yn cael eu cynnig i lawer o blant



- roedd plant yn unig yn gymdeithasol.

Dywedodd rhieni wrthyn ni hefyd:



- eu bod wedi gorfod ymladd i gael **Therapi Iaith a Lleferydd** ar gyfer eu plant



- na chafodd rhai plant **Therapi Iaith a Lleferydd** hyd yn oed pan ddaeth y cyfnod clo i ben



- nad oes digon o Therapyddion Iaith a Lleferydd yng Ngogledd Cymru




- nad oes digon o Therapyddion Iaith a Lleferydd Cymraeg



- bod ar y GIG a'r awdurdod addysg lleol angen gweithio gyda'i gilydd i gefnogi plant sydd ag angen **Therapi Iaith a Lleferydd**



- y dylai plant sydd â'r anghenion mwyaf anodd gael gwell cefnogaeth




- bod gwefan **Therapi Iaith a Lleferydd** yn anodd ei ddefnyddio.




Gallwch ddarllen rhai enghreifftiau o brofiadau plant o **Therapi Iaith a Lleferydd** yn:

https://northwaleschc.nhs.wales/files/salt-engagement-nwchc-final-report-eng-pdf/

## Gwasanaethau Anabledd Dysgu



Mae ar lawer o bobl ag anabledd dysgu angen cefnogaeth â'u cyfathrebu.



Gall fod yn anodd cefnogi pobl sy'n cael anawsterau wrth gyfathrebu.

Dywedodd un person o Dîm Oedolion ag Anabledd Dysgu wrthyn ni:



bod angen mwy o Therapyddion Iaith a Lleferydd i:




- roi gwybodaeth a chyngor ar gyfer cynlluniau cefnogaeth ar gyfer ymddygiad



- cefnogi penderfyniadau am nawdd ar gyfer gofal iechyd



- rhannu gwybodaeth am gyfathrebu ar gyfer pobl ifainc sy'n tyfu i fyny ac yn gadael ysgol




- bod galwadau fideo wedi gweithio’n dda ar gyfer y rhan fwyaf o bobl yn ystod y pandemig



- mae ar Therapyddion Iaith a Lleferydd angen mwy o hyfforddiant i ddefnyddio technoleg i roi cefnogaeth ar gyfer cyfathrebu.

## Beth sy’n digwydd yn awr?



Bydd **Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr** yn defnyddio’r wybodaeth yn yr adroddiad hwn i wella gwasanaethau **Therapi Iaith a Lleferydd** ar gyfer pobl yng Ngogledd Cymru.

# Geiriau Anodd

## Gwybodaeth hawdd ei deall

Mae gwybodaeth hawdd ei deall yn wybodaeth y gallwch chi ei deall a'i defnyddio. Er enghraifft, mae dogfennau Hawdd ei Ddeall yn wybodaeth hawdd ei deall.

## Strôc

Mae strôc yn salwch sy'n digwydd pan fydd gwaed yn stopio llifo i ran o'ch ymennydd.  Gall strôc achosi problemau â symud a lleferydd.

## Therapi Iaith a Lleferydd

Mae Therapi Iaith a Lleferydd yn wasanaeth iechyd sy'n rhoi cefnogaeth â phroblemau'n ymwneud â chyfathrebu neu fwyta ac yfed.